

Argaenau*



Beth ydyn nhw?

Haen denau o ddeunydd lliw dant ydi argaen, sy'n cael ei roi ar flaen y dant i wella'i edrychiad. Gwneir hyn oherwydd bod y dant efallai wedi'i ddifrodi* gan bydredd* neu drwy ddamwain, neu fod y dant wedi colli ei liw am ryw reswm neu'i gilydd.

Beth fydd fy neintydd yn ei wneud?

Gwneir argaenau gan amlaf o borslen gan dechnegydd deintyddol. Bydd yn rhaid i chi ymweld â'ch deintydd fwy nag unwaith ar gyfer y math hwn o argaen.

- Bydd eich deintydd yn edrych i ddechrau ar y llenwadau yn eich dannedd.
- Bydd angen tynnu ymaith ychydig bach o ddeunydd y dant naturiol – dim ond digon er mwyn sicrhau nad ydi'r argaen yn gwneud i'r dant edrych na themlo'n fawr. Oherwydd hynny, mae'n bosib na fydd angen i'r deintydd wneud y dant yn ddideimlad.
- Bydd yr amser paratoi yn dibynnu ar i ba raddau y mae'r dant wedi'i ddifrodi ac a oes angen llenwi'r dant ai peidio i ddechrau.
- Bydd angen i'ch deintydd ddefnyddio deunydd tebyg i bwti i wneud mowld o'ch ceg (a elwir yn 'argraff'*), fel y gall y technegydd deintyddol benderfynu ar ba siâp a maint y dylai wneud eich argaen.
- Bydd eich deintydd yn gludo'r argaen a wnaed gan y technegydd i'r dant yn ystod eich ymweliad nesaf.
- Gall argaenau weithiau ddod yn rhydd oddi wrth y dant neu dorri os caiff y dant ei daro. Gellir gludo argaen yn ôl weithiau, ond bydd rhaid cael argaen newydd os ydi o wedi'i ddifrodi.

Caiff rhai argaenau eu hadeiladu'n syth ar y dant gan ddefnyddio'r un deunydd ag a ddefnyddir ar gyfer llenwadau gwyn. Caiff arwyneb y dant ei wneud yn arw gydag asid gwan. Yna ychwanegir deunydd llenwad gwyn mewn haenau nes y bydd y dannedd yn edrych yn iawn.

Beth ydi'r manteision?

- Gall argaenau wella'ch edrychiad yn fawr. Maen nhw'n cuddio amherffeithiadau*, ac ni fyddwch yn colli ond ychydig iawn o ddeunydd eich dant naturiol.
- Mae argaenau hefyd yn amddiffyn y dannedd rhag mwy o ddifrod. Gall arwyneb y dant gael ei hydoddi* gan asid yn y geg (gan amlaf oherwydd cymryd gormod o fathau arbennig o fwyd a diod); gall hynny wneud y dannedd yn sensitif iawn i boeth ac oer. Yn y sefyllfa hon, gall argaenau amddiffyn y dannedd.
- Os ydi'r dant yn gryf, mae argaen yn aml yn ddewis gwell na choron* i wella edrychiad y dant.

GEIRFA: amherffeithiad(au) = *imperfection(s)*; argaen(au) = *veneer(s)*; argarff(au) = *impression(s)*; coron = *crown*; difrodi = *to damage*; hydoddi = *to dissolve*; llenwad(au) = *filling(s)*; pydredd = *decay*